

CANLLAWIAU SWYDDOGION

YSGRIFENNYDD RHAGLEN

C.F.F.I.
CEREDIGION
Y.F.C.

1. BETH YW RÔL YSGRIFENNYDD RHAGLEN?

Rôl Ysgrifennydd Rhaglen yw trefnu a pharatoi rhaglen llawn o weithgareddau eang sydd yn mynd i apelio tuag at bob aelod.

Beth yw rôl
Ysgrifennydd rhaglen?



2. BETH SYDD YN GWNEUD YSGRIFENNYDD RHAGLEN DA AC EFFEITHIOL?

Mae bod yn berson drefnus yn allweddol i'r swydd yma! Mi ddylai'r ysgrifennydd rhaglen medru bod yn barod i gysylltu a sefydliadau/busnesau lleol a siaradwyr gwadd yn ogystal â gwrando ar syniadau gan aelodau.

3. CANLLAWIAU PWYSIG

- Trefnwch rhaglen llawn ac eang o weithgareddau ar gyfer eich clwb. Gwnewch yn siwr bod pob aelod yn derbyn rhaglen ac yn gwybod beth sydd yn mynd ymlaen yn y clwb.
- Sicrhau fod yna weithgareddau sydd yn addas ac yn apelio at bob aelod yn eich clwb. Dyw pob aelod ddim yn mynd i hoffi y 'run peth.
- Cysylltwch â sefydliadau/busnesau lleol, siaradwyr gwadd a lleoliadau mewn da bryd er mwyn gwneud trefniadau.
- Trefnwch y rhaglen o amgylch calendr CFFI Ceredigion a CFFI Cymru.
- Gweithiwch yn agos âg arweinyddion a swyddogion y clwb er mwyn sicrhau fod gofynion lechyd a Diogelwch a Diogelu Plant wedi'u bodloni.
- Trafodwch y gweithgareddau gyda'r aelodau er mwyn gwobod beth maent wedi mwynhau a ddim wedi mwynhau mewn noson clwb.
- Ceisiwch meddwl am syniadau gwreiddiol ar gyfer noson clwb.
- Efallai bydd yna achos yn codi lle fydd yn rhaid i chi ail-drefnu ar fyr-rhybudd. E.e. Siaradwr gwadd medru dod a.y.y.b. Peidiwch â Phoeni! Cysylltwch âg Arweinydd neu Cadeirydd eich clwb neu fydd gan Swyddfa'r Sir gemau a syniadau i'ch helpu.

4. COFIWCH...

Os nad ydych yn siwr am rhywbeth neu os oes gennych broblem – Ffoniwch y swyddfa.

Gallwch hefyd ofyn i gyn swyddogion, aelodau hŷn, arweinyddion a rhieni eich clwb am help.

